Hawdd ei ddeall

Gogledd Cymru **Gyda'n Gilydd**
North Wales **Together**
*Gwasanaethau Ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu*
*Seamless services for people with Learning Disabilities*

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

# Sut i drwsio eich cymorth clywed

## Mae'r daflen hon ynghylch ble i fynd i gael trwsio eich cymorth clywed a sut i wneud hynny

## Gallwch chi ymweld â'r clinig




Os ydych chi'n cael problemau gyda chymorth clywed y GIG, gallwch chi ymweld â'n clinig.

Dewch i'r **Adran Glywedeg** yn **Ysbyty Maelor Wrecsam**.
Does arnoch chi ddim angen apwyntiad.

Rydyn ni ar agor o **ddydd Llun** i **ddydd Gwener**.

Yn y boreau o **9 am** hyd **12 pm.**

Ac yn y prynhawniau o **1 pm** hyd **4 pm.**

Rydyn ni ar gau ar wyliau banc.

## Gallwch chi fynd i glinigau mewn ardaloedd eraill



Os ydych chi'n byw yn nes at **Yr Wyddgrug**, **Glannau Dyfrdwy**, **Y Waun**, **Dolgellau** neu **Dywyn**, ffoniwch **yr Adran Glywedeg**.

Y rhif ffôn yw **01978 725 304**.

Bydd arnoch chi angen apwyntiad i fynd yno.


## Gallwch anfon cymhorthion clywed drwy'r post



Gallwch chi bostio eich cymorth clywed diffygiol aton ni.  Gallwch chi wneud hyn os na allwch chi fynd i'n clinig neu os na allwch chi aros am apwyntiad.



- Ysgrifennwch nodyn aton ni i ddweud beth yw'r broblem.
- Ysgrifennwch eich enw, eich cyfeiriad a'ch dyddiad geni ar y nodyn.



- Rhowch eich cymorth clywed a'r nodyn mewn amlen glustogog.



- Ysgrifennwch ein cyfeiriad ar yr amlen ac ewch â hi i swyddfa’r post.



- Gofynnwch i swyddfa’r post bwyso’r amlen a rhoi’r stamp cywir arni. A rhowch stamp arall y tu mewn i ni ei ddefnyddio.



Bydd eich cymorth yn cael ei drwsio a’i anfon yn ôl atoch chi.

## Batris newydd

### Sut i gael batris newydd o glinig



Does arnoch chi ddim angen apwyntiad i gael batris newydd.




Gallwch chi eu cael o **Adran Clywedeg Wrecsam**.



Dewch â'ch **llyfr cofnodi brown** neu'r ffolder glas hwn gyda chi.



Gallwch chi hefyd gael batris o'r brif fynedfa yn yr ysbytai hyn:
**Yr Wyddgrug, Glannau Dyfrdwy, Y Waun, Dolgellau, Tywyn**



Dylai batris sydd wedi darfod gael eu hailgylchu. Gallwch chi eu hanfon yn ôl at yr Adran Glywedeg. Neu gallwch chi eu rhoi mewn man ailgylchu batris mewn archfarchnad.

## Sut i gael batris newydd drwy'r post



Gallwch chi hefyd gael batris newydd drwy'r post. Postiwch eich llyfr brown at yr **Adran Glywedeg, Ysbyty Maelor Wrecsam**.




Rhowch stamp llythyr mawr y tu mewn i ni ei ddefnyddio.



Byddwn ni'n postio'r llyfr a'r batris newydd yn ôl atoch chi.

## Prynu batris newydd




Gallwch chi archebu batris newydd ar-lein hefyd. Er enghraifft, o Amazon.




Mae'r batris yn y pecyn glas yn faint 675 (CP44)

Mae'r batris yn y pecyn oren yn faint 13 (CP48)

Mae'r batris yn y pecyn brown yn faint 312 (CP41)

Y rhain yw'r batris sy'n cael eu defnyddio gan yr Adran Glywedeg, ond gallwch chi ddefnyddio gwneuthuriad arall hefyd.

## Gwybodaeth rybuddio ynghylch batris



Gall llyncu batris cymorth clywed achosi niwed difrifol neu farwolaeth.

Gall hyd yn oed batris sydd ddim yn gweithio gael yr effaith hon.

Gall batris cymorth clywed sydd wedi'i gwthio y tu mewn i'r clustiau neu'r ffroenau achosi llawer o niwed hefyd.

### Beth i'w wneud os ydych chi'n llyncu batri



Ewch yn syth i'r ysbyty. Gwnewch yn siŵr bod ganddo Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys. Mae hon yn cael ei hadnabod fel A&E.

### Sut i osgoi llyncu batris yn ddamweiniol



Dywedwch wrth eich **Clywedegwr lleol** os ydych chi'n meddwl y gallech chi lyncu batri cymorth clywed yn hawdd.



Gall droriau batris cymorth clywed gael eu cloi os oes angen.



Gall batris weithiau gael eu camgymryd am bils. Edrychwch ar eich pils yn ofalus cyn eu llyncu.

## Sut i osgoi llyncu batris yn ddamweiniol



Peidiwch â chadw batris eich cymorth clywed yn yr un lle â'ch pils.



Cadwch fatris i ffwrdd oddi wrth fabis a phlant. Peidiwch â newid y batri o flaen babis neu blant.



Byddwch yn ofalus sut rydych chi'n ailgylchu eich hen fatris. Peidiwch â'u gadael yn esgeulus yn unlle.



Meddyliwch am unrhyw un arall yn eich tŷ a allai lyncu batris. Gwnewch yn siŵr fod eich batris yn ddiogel oddi wrthyn nhw hefyd.

## Defnyddio’ch ffôn gyda’ch cymorth clywed



Daliwch y ffôn wrth feicroffon y cymorth clywed. Mae hwn ar dop eich clust.

Os ydych chi’n cael problemau wrth ddefnyddio’r ffôn, dywedwch wrth eich Clywedegwr.

Gall eich Clywedegwr ddweud wrthych chi am wahanol fathau o ffonau a allai helpu.